



Cyngor Tref Dinbych – Aseiad Risg Ariannol 2026-2027



Cytunwyd ac fe'i derbyniwyd ar:

Dyddiad yr adolygiad nesaf:

Risg	Canlyniad posibl	Risg gynhenid	Rheolaethau sy'n ofynnol gan y Rheoliadau Ariannol	Risg weddilliol	Camau pellach / argymhelliad
Methiant i sicrhau rheolaeth ariannol gyffredinol	Colled ariannol, cymhwyster archwilio, methiant llywodraethu, niwed i enw da	Uchel	Y Cyngor sy'n gyfrifol am reolaeth ariannol ddigonol, diogelu arian cyhoeddus, atal a chanfod twyll a sicrhau rhaniad clir o gyfrifoldebau. Mae angen adolygiad blynyddol o reolaethau mewnol.	Isel	Adolygiad blynyddol wedi'i ddogfennu o reolaethau mewnol cyn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol
Cofnodion cyfrifyddu annigonol	Cyfrifon anghywir, anallu i gadarnhau trafodion, materion archwilio	Uchel	Mae'r Swyddog Cyllid Cyfrifol (RFO) yn cynnal cofnodion cyfrifyddu, yn sicrhau arferion priodol, yn llunio adroddiadau ariannol ac yn gweinyddu TAW.	Isel	Cynnal gweithdrefnau cyllid diwedd blwyddyn a misol wedi'u dogfennu
Methiant i gysoni cyfrifon banc	Gwallau/twyll heb eu canfod; sefyllfa arian parod anghywir	Uchel	Cysoni banc o leiaf yn fisol gan yr RFO a'i gyflwyno i'r holl aelodau'n fisol	Isel	Cadw cysoniad dyddiedig a pharhau â thryloywder i aelodau'n fisol

Twyll neu gamddefnyddi o arian y Cyngor	Colled ariannol uniongyrchol, ymchwiliad troseddol, niwed i hyder y cyhoedd	Uchel	Rhannu cyfrifoldebau; cysoniad annibynnol; awdurdodi taliadau gan y Cyngor; dau lofnodwr sieciau; rheolaethau archwilio	Isel	Cynnwys gweithdrefn ymateb i dwyll ac adolygiad blynyddol o'r warant ffyddlondeb
Taliadau wedi'u gwneud heb awdurdod priodol	Gwariant anghyfreithlon neu heb awdurdod	Uchel	Pob taliad i'w awdurdodi gan y Cyngor neu bwyllgor dirprwyedig; yr RFO sy'n paratoi'r rhestr daliadau.	Isel	Cofnodi cyfeirnod penderfyniad/cofnod yn erbyn y rhestr daliadau
Twyll sieciau / taliad siec anghywir	Colled o arian cyhoeddus	Uchel	Mae'r system bresennol yn ei gwneud yn ofynnol cael dau lofnodwr Aelod awdurdodedig; mae sieciau'n parhau i fod yn ddull arferol hyd nes y caiff taliadau electronig eu gweithredu'n ffurfiol.	Isel	Dylai llofnodwyr wirio'r anfoneb, y talai a'r swm yn hytrach na llofnodi'r siec a baratowyd yn unig
Twyll bancio electronig	Colled sylweddol drwy fanylion bancio dan fygythiad neu daliad twyllodrus	Uchel	Awdurdodi deuol, gwahanu cychwyn ac awdurdodi, mewngofnodi unigryw, dim cyfrineiriau a rennir, dim manylion mewngofnodi wedi'u cadw a dilysu aml-ffactor (MFA).	Canolig	Gweithdrefn bancio electronig ffurfiol cyn ei gweithredu
Manylion banc wedi'u newid yn dwyllodrus	Taliad wedi'i ddargyfeirio at dwyllwr	Uchel	Rhaid gwirio newidiadau i fanylion banc cyflenwyr yn annibynnol cyn gwneud y newid.	Isel	Gwirio drwy ddefnyddio manylion ffôn/cyswllt a oedd eisoes yn cael eu cadw, a byth dibynnu ar gais am newid yn unig

Defnyddio cardiau personol ar gyfer gwariant y Cyngor	Llwybr archwilio gwan, anghydfodau ynghylch ad-daliadau, gwariant amhriodol	Canolig	Gwaherddir defnyddio cardiau credyd/debyd personol ar gyfer pryniannau'r Cyngor.	Isel	Atgyfnerthu hyn drwy ganllawiau i staff/aelodau
Gwariant brys heb ei reoli	Gwariant y tu allan i gyllideb/awdurdod a gymeradwywyd gan y Cyngor	Canolig	Gall y Clerc awdurdodi gwariant brys yn unig ar ôl ymgynghori â'r Cadeirydd, hyd at £1,000, a rhaid rhoi gwybod amdano yn y cyfarfod nesaf.	Isel	Cofnodi'r rheswm, y pŵer cyfreithiol a'r ymgynghoriad â'r Cadeirydd
Gorwario yn erbyn y gyllideb	Lleihad mewn cronfeydd wrth gefn; anallu i ariannu gwasanaethau arfaethedig	Uchel	Cyfngir gwariant i gyllidebau cymeradwy; mae angen cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer trosglwyddiadau rhwng cyllidebau; monitro'r gyllideb yn chwarterol gyda gwiriadau dros 15% neu £500 yn cael eu hamlygu.	Canolig	Ar gyfer DTC, caiff hyn ei fonitro'n fisol gan yr RFO
Praesept/cyllid eb anghywir neu annigonol	Dim digon o arian i ddarparu gwasanaethau neu drethiant diangen	Uchel	Mae'r RFO yn paratoi amcangyfrifon; mae'r Cyngor yn cymeradwyo'r gyllideb a'r praesept; adolygir cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi.	Isel	Rhagolwg aml-flwyddyn ar gyfer rhwymedigaethau/prosiectau mawr hysbys
Defnyddio cronfeydd wrth gefn yn amhriodol	Diffyg hylifedd neu gadw gormod o arian cyhoeddus heb gyfiawnhad	Uchel	Mae'n ofynnol i'r Cyngor adolygu cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi wrth osod y gyllideb.	Canolig	Atodlen flynyddol o gronfeydd wrth gefn yn nodi'r diben, y balans a'r defnydd a ragwelir

Caffael heb sicrhau gwerth am arian	Costau gormodol, her gan gyflenwyr/y cyhoedd, niwed i enw da	Uchel	Rhaid i bob caffaeliad sicrhau gwerth am arian. Hyd at £3,000: gwiriad gwerth rhesymol; £3,001–£25,000: tri dyfynbris ysgrifenedig; dros £25,000: tendr ffurfiol.	Isel	Cadw rhestr wirio caffael gyda phob pryniant sylweddol
Rhannu contractau er mwyn osgoi gofynion caffael	Torri'r Rheoliadau Ariannol/cyfraith caffael a her archwilio	Uchel	Ni ddylid rhannu contractau'n artiffisial er mwyn osgoi trothwyon.	Isel	Asesu gwerth cyfan/cyfunol y prosiect cyn dechrau'r broses gaffael
Heb ddewis y tendr isaf heb dystiolaeth	Honiad o ffafriaeth neu werth gwael	Canolig	Nid oes rhwymedigaeth benodol ar y Cyngor i dderbyn y tendr isaf.	Canolig	Cofnodi mewn cofnodion y Cyngor y rhesymau gwrthrychol dros ddewis cyflenwr arall
Gwall cyflogres	Talu staff yn ormod neu'n rhy ychydig, anawsterau adennill	Uchel	Telir cyflogau yn unol â chontractau; rheolau TWE, Yswiriant Gwladol a phensiynau; mae angen cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer newidiadau i gyflogau; adroddir cyfansymiau misol.	Isel	Gwiriad annibynnol o gyflogau/amserlenni/n ewidiadau a chyfansymiau'r gyflogres
Methiant HMRC/TWE/Ys wiriant Gwladol	Llog, cosbau, cofnodion cyflogeion anghywir	Uchel	Mae'n ofynnol yn benodol i'r gyflogres gydymffurfio â TWE ac Yswiriant Gwladol.	Isel	Cysoni'r gyflogres â'r cyfriflyfr yn rheolaidd
Methiant gweinyddu pensiynau	Ôl-ddyledion, cosbau, cwynion gan gyflogeion	Uchel	Rhaid i'r gyflogres gydymffurfio â rheoliadau pensiynau.	Isel	Cysoni cyfraniadau pensiwn yn fisol

TAW wedi'i gyfrifo/ei hawlio'n anghywir	Colled ariannol, addasiad neu gosbau gan CThEM	Canolig	Mae'r RFO yn gweinyddu TAW; cyflwynir ffurflenni TAW o leiaf yn flynyddol.	Isel	Mae adolygiad TAW chwarterol ar waith ac mae hwn yn reolaeth llawer cryfach na gwiriad blynyddol yn unig
Incwm heb ei gofnodi na'i fancio	Colli/dwyn incwm y Cyngor; tanamcangyfrif incwm	Uchel	Cofnodi a bancio pob incwm yn brydlon.	Isel	Cyfrif arian parod gan ddau berson ar gyfer digwyddiadau, taflenni cyfrif wedi'u llofnodi a bancio prydlon
Ffioedd a thaliadau'n mynd yn hen	Y Cyngor yn rhoi cymhorthdal i wasanaethau'n anfwriadol	Canolig	Adolygir ffioedd a thaliadau'n flynyddol.	Isel	Cofnodi adolygiad blynyddol o ffioedd hyd yn oed os na wneir unrhyw newid
Dyledion drwg wedi'u dileu'n amhriodol	Colled o arian cyhoeddus; triniaeth anghyson	Canolig	Mae angen cymeradwyaeth lawn y Cyngor i ddileu dyledion drwg.	Isel	Cadw atodlen o ddyledion sy'n heneiddio cyn unrhyw ddileu
Benthyca wedi'i wneud yn amhriodol	Dyled anghyfreithlon neu rwymedigaethau hirdymor anfforddiadwy	Uchel	Mae benthyca yn gofyn am gymeradwyaeth lawn y Cyngor a'r cydsyniadau angenrheidiol.	Isel	Cadw cofrestr benthyciadau a rhagolwg ad-daliadau
Colled ar fuddsoddiadau	Colled o gyfalaf/arian cyhoeddus	Uchel	Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol; buddsoddiadau yn enw'r Cyngor, yn risg isel ac wedi'u cynllunio i ddiogelu cyfalaf.	Isel	Adolygiad blynyddol o derfynau sefydliadau/ymrwymia dau
Colli neu hepgor asedau'r Cyngor	Asedau'n diflannu, heb yswiriant neu wedi'u cyfrif yn anghywir	Uchel	Mae'r RFO yn cynnal Cofrestr Asedau; gwiriad blynyddol o asedau.	Canolig	Cofnodi a llofnodi dilysiad ffisegol yn flynyddol

Gwaredu asedau o dan eu gwerth / heb awdurdod	Colled ariannol a her bosibl	Uchel	Mae angen cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer gwaredu asedau dros £500; mae trafodion tir yn gofyn am gymeradwyaeth lawn y Cyngor a phrsiad priodol.	Isel	Cofnod gwaredu gan gynnwys prisiaid a chofnod penderfyniad y Cyngor
Tan-yswirio	Gwariant mawr heb yswiriant yn dilyn colled/hawliad	Uchel	Cynhelir yswiriant digonol ac fe'i hadolygir yn flynyddol yn dilyn asesiad risg.	Canolig	Cysoni'r gofrestr asedau a'r atodlen yswiriant yn flynyddol
Prosiectau newydd yn cychwyn heb asesu'r amlygiad ariannol	Costau parhaus heb eu cynllunio, rhwymedigaethau neu gyllideb annigonol	Uchel	Mae gweithgareddau newydd yn gofyn am asesiad risg cyn eu cymeradwyo.	Isel	Cynnwys cost oes gyfan, yswiriant, TAW, cynnal a chadw a rhwymedigaeth ymadael
Arian elusen/ymddiriedolaeth wedi'i gymysgu ag arian y Cyngor	Afreoleidd-dra cyfrifyddu; torri cyfrifoldebau ymddiriedolwyr	Uchel	Mae angen cyfrifon ar wahân lle mae'r Cyngor yn gweithredu fel ymddiriedolwr.	Canolig	Cofnodion bancio/cyfrifyddu ar wahân clir ar gyfer arian yr ymddiriedolaeth; ar hyn o bryd yn y broses o gael mynediad at gyfrifon yr elusen fel y mae tîm archwilio DCC yn ymwybodol ohono

Rheoliadau Ariannol wedi'u hatal heb reolaeth ddigonol	Rheolaethau'n cael eu hosgoi a gwariant yn cael ei herio	Uchel	Mae atal y Rheoliadau yn gofyn am rybudd, penderfyniad y Cyngor, rhesymau ac asesiad risg wedi'i ddogfennu.	Isel	Dylai atal fod yn eithriadol ac wedi'i ddiffinio'n fanwl. Dylid gofyn yn ffurfiol am hepgoriadau a'u cofnodi lle bo hynny'n berthnasol ynghylch dyfynbrisiau o dan £3,000.00
Absenoldeb yr RFO / colli gwybodaeth ariannol	Taliadau, cyflogres, bancio ac adroddiadau'n cael eu gohirio	Uchel	Nid yw'r Rheoliadau'n ymdrin yn benodol â hyn	Canolig	Ychwanegu gweithdrefn parhad busnes a threfniadau trosglwyddo diogel
Ymosodiad seiber/colli data sy'n effeithio ar gofnodion ariannol	Colli cofnodion, taliadau'n cael eu gohirio, twyll posibl	Uchel	Ymdrinnir â diogelwch bancio ar-lein, ond nid yw parhad ehangach y system gyllid yn benodol	Canolig	Ychwanegu copïau wrth gefn, adferiad a rheolaethau mynediad i'r system gyllid